Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol / Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

## Pecyn Gwybodaeth

**Dyddiad cau: 10am ddydd Llun, 23 Mai 2022**







disability confident EMPLOYER

regulated by Civil Service Commission

# Cynnwys


Croeso ..... 3
Pwy ydym ni a beth rydym ni'n gwneud ..... 4
Trefniadau llywodraethu ..... 5
Ein Bwrdd Strategaeth ..... 6
Ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ..... 7
Ynglŷn â'r rolau ..... 8
Manyleb yr unigolyn ..... 9
Telerau penodi ..... 10
Hyfforddiant a pherfformiad ..... 11
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ..... 11
Ymgeisio am y rôl ..... 12
Cyflwyno'ch cais ..... 14
Proses ddewis ..... 15
Amserlen ddangosol ..... 16
Ymholiadau Pellach ..... 16


**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg ar ein gwefan neu gan recriwtio@estyn.llyw.cymru**

# Croeso




**Neges gan Owen Evans, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM)**

Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â Bwrdd Estyn. Yn y cyfnod hwn o newid yn y system addysg a hyfforddiant yng Nghymru, ein blaenoriaeth yw sicrhau safonau uchel wrth i ni ddychwelyd ein gweithgareddau i normal newydd. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn:

- yn cyflwyno ein fframwaith arolygu newydd ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ac yn ailddechrau cynnal arolygiadau yn ein sectorau ôl-16
- yn cynorthwyo ysgolion i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd
- yn chwarae rôl flaenllaw mewn datblygu'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid
- yn cefnogi adferiad o heriau Covid

Rwy'n falch o arwain sefydliad y cydnabuwyd bod ganddo rôl hanfodol mewn gwella dysgu pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru. Dysgwyr sydd wrth wraidd popeth a wnawn. Mae ein pobl wedi ymrwymo i weithio'n gydweithredol i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel i'n rhanddeiliaid sy'n darparu atebolrwydd cyhoeddus ac yn cefnogi gwelliant.

Rwy'n chwilio am unigolion i lenwi swyddi ar y Bwrdd o fis Medi 2022. Mae gan ein Cyfarwyddwyr Anweithredol rôl ymgynghorol, yn llywio rhesymu a gweithrediad ein Bwrdd Strategaeth a'i is-bwyllgorau. Bydd disgwyl i chi roi safbwynt allanol i drafodaethau, yn ogystal â her adeiladol annibynnol. Yn ymarferol, byddwch yn asesu'r sicrwydd sy'n cael ei roi gennyf fi a'm tîm, yn ogystal â chan archwilwyr mewnol ac allanol, ac yn fy nghynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth ariannol, llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaethau mewnol. Bydd y mewnbwn hwn yn fy helpu i sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu fel sefydliad sector cyhoeddus modern.

Mae'r pecyn recriwtio hwn yn darparu gwybodaeth am y rôl a manyleb yr unigolyn, manylion am sut i ymgeisio a'r broses ddewis.

Rwy'n rhoi croeso arbennig i geisiadau gan ymgeiswyr Du, Asiaidd ac o gefndir Ethnig Lleiafrifol i gynyddu ein hamrywiaeth o ran meddyliau a phrofiadau bywyd.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais.



# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n gwneud

Ni yw Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn arolygu ac yn adrodd ar ansawdd a safonau mewn darparwyr addysg a hyfforddiant ledled y wlad. Oherwydd COVID-19, rydym wedi addasu ffocws ein holl waith, a'n ffordd o'i gyflwyno, ond mae ein cenhadaeth, gweledigaeth, amcanion strategol a'n gwerthoedd wedi aros yr un fath.

## Cenhadaeth a gweledigaeth

Ein **gweledigaeth** yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, a deilliannau i'r holl ddysgwyr yng Nghymru

Ein **cenhadaeth** yw cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant i ddatblygu diwylliant o hunanwella a dysgu trwy ein cyngor, arolygu a meithrin gallu

## Hamcanion strategol

**Darparu atebolrwydd cyhoeddus** ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

**Llywio datblygiad polisi** cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion

**Meithrin gallu** i wella cyflwyno system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

## Gwerthoedd

- Rhoi dysgwyr wrth wraidd ein gwaith
- Gwrando, dysgu a chydweithio ag eraill
- Gweithredu'n ddidwyll, yn deg ac ag uniondeb
- Dangos arweinyddiaeth a gwaith tîm effeithiol
- Hybu iechyd, lles a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn
- Gwerthfawrogi a pharchu pobl a'u gwaith
- Annog cyfrifoldeb, blaengaredd ac arloesedd

Darganfyddwch fwy am ein gwaith ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni](www.estyn.llyw.cymru/amdanom-ni).

# Trefniadau llywodraethu

Rydym yn adran anweinidogol y gwasanaeth sifil. Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi, o dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mae ein dyletswyddau a'n pwerau yn dod o blith rhai Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM), y mae ei sefyllfa statudol wedi'i hamlinellu yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff penodiad, swyddogaethau a phwerau PAEM eu pennu gan ddeddfwriaeth, sef:

- Deddf Addysg 2005
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- Deddf Plant 2004

Mae PAEM, fel Swyddog Cyfrifo, yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli adnoddau, a rheolaeth drostynt, yn cynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a nodi rheoli risg a chyfleoedd.

PAEM hefyd yw'r Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru am reolaeth ariannol, ac am sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Mae gan PAEM gyfrifoldeb personol am gyfeirio a rheoli'r sefydliad, ond gallai ddirprwyo arfer swyddogaethau i unrhyw aelod o staff neu awdurdod cyhoeddus arall.

I gael mwy o fanylion am ein fframwaith llywodraethu, gweler ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sydd ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru o dan Cyhoeddiadau Corfforaethol.

# Ein Bwrdd Strategaeth

Diben y Bwrdd Strategaeth yw sefydlu a monitro ein hagenda strategol a hyrwyddo llywodraethu corfforaethol effeithiol. Wrth wneud hyn, mae'r Bwrdd yn cynghori ar ein datblygiad er mwyn sicrhau ein lles a'n gwelliant parhaus fel cyflogwr ac fel gwasanaeth cyhoeddus proffil uchel.

Mae dau is-bwyllgor gan ein Bwrdd Strategaeth.

Amcanion y Bwrdd Strategaeth yw:

- sicrhau bod ein cenhadaeth, ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn cydymffurfio ag egwyddorion moesegol ac yn arwain at lywodraethu corfforaethol cadarn
- hwyluso cyfeiriadau strategol a sicrhau bod ein strwythur a'n galluogrwydd sefydliadol yn briodol ar gyfer y strategaethau dewisol
- monitro cynnydd yn unol â'n Cynllun Blynyddol, yn cynnwys cyflawni ein dangosyddion perfformiad a data arall ar berfformiad, gan gynghori ar feysydd tanberfformio yn ôl yr angen
- bodloni ei hun, gan roi ystyriaeth benodol i gyngor ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ein bod yn gweithredu'n briodol mewn materion yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol, risg a rheolaeth fewnol a digonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol ac allanol
- cynghori PAEM ar faterion yn ymwneud â datblygu sefydliadol
- adolygu ein Cynllun Blynyddol a'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon, cyn eu cyhoeddi

Mae aelodaeth ein Bwrdd Strategaeth yn cynnwys:

- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi
- 2 Gyfarwyddwr Strategol
- 3 Aelod Anweithredol annibynnol

# Ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Caiff ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Strategaeth, mae mynychwyr yn cynnwys:

- Pennaeth Archwilio Mewnol
- Cynrychiolydd o blith ein harchwilwyr allanol
- Cynrychiolwyr o'r Tîm Cyllid sy'n gyfrifol am lunio ein Cyfrifon Adnoddau (fel y bo'n briodol)
- Unrhyw swyddogion eraill (fel sy'n ofynnol)

Mae ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn darparu gweithdrefnau craffu, goruchwylio a sicrwydd risg o ran rheoli, rheolaeth a llywodraethu i PAEM fel Swyddog Cyfrifo, ac i'r Bwrdd Strategaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- effeithiolrwydd y prosesau strategol ar gyfer rheoli, rheolaeth a llywodraethu risg, sicrwydd gwybodaeth a'r 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'
- y polisïau cyfrifo, yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth rheolwyr at yr archwilwyr allanol
- y gweithgareddau arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol

# Ynglŷn â’r rolau

**Cyfarwyddwr Anweithredol**

Fel aelod o’n Bwrdd Strategaeth, bydd gennych rôl ymgynghorol. Nid oes gan Gyfarwyddwyr Anweithredol rôl gwneud penderfyniadau, ac felly nid ydynt yn pleidleisio ym mhenderfyniadau’r Bwrdd.

Byddwch chi:

- yn ehangu gorwelion y Bwrdd Strategaeth wrth bennu strategaeth trwy ddod â’ch gwahanol brofiadau a chefndiroedd perthnasol
- yn herio’r broses ffurfio polisi yn adeiladol
- yn cyfrannu at ddatblygiad polisi
- yn cefnogi ac yn monitro perfformiad a chynnydd rheolwyr wrth fodloni amcanion a nodau
- yn bodloni’ch hun fod gwybodaeth ariannol yn ddibynadwy a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg yn gadarn

**Aelodau o’n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**

Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynghori ein Swyddog Cyfrifo am:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- y polisïau cyfrifo, a’r cyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu’r cyfrifon cyn eu cyflwyno i’w harchwilio, lefelau’r gwallau a nodwyd a llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr at archwilwyr allanol
- y gweithgarwch arfaethedig a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol fel ei gilydd
- digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr rheolwyr at archwilwyr allanol
- sicrwydd yn ymwneud â’n gofynion llywodraethu corfforaethol
- cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau archwilio mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio gan gontractwyr sy’n dymuno darparu gwasanaethau o’r fath
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu’r chwiban, a threfniadau (os o gwbl) ar gyfer ymchwiliadau arbennig

Nid yw Cyfarwyddwyr Anweithredol / Aelodau o’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gyflogeion ac nid ydynt yn cymryd rhan ym musnes y sefydliad o ddydd i ddydd.

Byddwch chi’n atebol i PAEM fel Swyddog Cyfrifo ond yn gallu codi materion llywodraethu sy’n destun pryder yn uniongyrchol gyda’r Swyddog Cyfrifo priodol o fewn Llywodraeth Cymru.

# Manyleb yr unigolyn

**Meini prawf hanfodol**

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos tystiolaeth o gymhwysedd profedig yn y meysydd canlynol yn eich cais, a'u dangos mewn cyfweliad, os byddwch yn cyrraedd y rhestr fer:

- Gallu i feddwl yn strategol gyda sensitifrwydd priodol i flaenoriaethau gwleidyddol a sefydliadol ehangach
- Medrau rhyngbersonol da gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir, yn gryno ac yn ddarbwyllol o fewn amgylchedd tîm, a pharodrwydd i herio
- Defnyddio barn gadarn – yn gallu gwerthuso materion cymhleth, pwyso a mesur barnau anghyson, a meddwl a chynllunio ymlaen
- Profiad neu fedrau sylweddol mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:
    - Arweinyddiaeth
    - Meddwl yn strategol
    - Rheolaeth ariannol (ar gyfer o leiaf un o'r rolau)
    - Mesur a rheoli perfformiad
    - Deall sefydliadau'r sector cyhoeddus
    - Cefndir mewn addysg
    - Llywodraethu
    - Archwilio a rheoli risg
- Deall y cyd-destun y mae Estyn yn gweithio ynddo, yn cynnwys y berthynas â Llywodraeth Cymru
- Ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a dealltwriaeth ohonynt
- Ymrwymiad i hyrwyddo Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

**Yr iaith Gymraeg**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a meithrin galluogrwydd dwyieithog mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru. Er nad yw medrau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon, disgwylir i ymgeiswyr ddangos gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd ac ymrwymiad i hyrwyddo a phrif ffrydio'r Gymraeg. Rydym yn croesawu eich cais, beth bynnag fo lefel eich medr.

# Telerau penodi

**Lleoliad**

Cynhelir cyfarfodydd yn rhithwir ar hyn o bryd. Pan fo'n briodol, bydd dull hybrid yn cael ei ddefnyddio gyda chyfarfodydd wyneb yn wyneb yng Nghymru.

**Ymrwymiad amser**

Yr ymrwymiad amser disgwyliedig presennol yw 15 diwrnod y flwyddyn. Bydd y Bwrdd Strategaeth yn cyfarfod hyd at 4 gwaith y flwyddyn (unwaith y chwarter) a bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cyfarfod hyd at 4 gwaith y flwyddyn (unwaith y chwarter). Os cewch eich penodi'n Gadeirydd bwrdd neu bwyllgor, efallai y bydd angen ymrwymiad amser ychydig yn uwch.

Nid yw cyfarfodydd fel arfer yn para mwy na hanner diwrnod, a chaniateir hanner diwrnod ychwanegol ar gyfer paratoi a / neu waith dilynol.

Efallai y cewch eich gwahodd hefyd i fynychu briffiau a chyfarfodydd ad hoc, lle bo'n briodol. Gellir adolygu a diwygio'r ymrwymiadau amser hyn.

**Cyfnod penodi**

Bydd penodiadau am gyfnod o 3 blynedd, fel arfer. Efallai y bydd PAEM yn ymestyn y tymor hwn i ddarparu parhad trwy gyfnewidiadau ond ni fydd uchafswm tymor penodi yn fwy na chwe blynedd.

Ni chaiff cyn Gyfarwyddwyr Anweithredol ein Bwrdd Strategaeth eu heithrio rhag ymgeisio, ond ystyrir eu ceisiadau ar yr un sylfaen â cheisiadau gan unrhyw ymgeiswyr eraill sy'n ymgeisio am y rôl. Ni fydd uchafswm y tymor penodi gydag Estyn yn fwy na chwe blynedd.

**Tâl**

Rôl a delir drwy ffi yw hon. Telir ffi fisol i chi o £352.50 yn ogystal â threuliau rhesymol. Gellir adolygu a diwygio'r ffi. Os cewch eich penodi i rôl Cadeirydd, bydd premiwm yn gysylltiedig â'r rôl.

Telir ffi safonol i chi o £282 y dydd am ddyletswyddau ychwanegol, e.e. panelau cyfweld.

**Treuliau a chynhaliaeth**

Telir costau teithio a chynhaliaeth ar ein cyfraddau safonol yn unol â'n Polisi Teithio a Chynhaliaeth, sydd ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru.

**Gwrthdaro buddiannau**

Ni chaiff aelodau o'r Bwrdd Anweithredol ymgymryd ag unrhyw weithgareddau a fyddai'n dylanwadu, yn gwrthdaro neu fel arall yn ymyrryd yn amhriodol â chyflawni eu dyletswyddau yn briodol. Wrth ymgeisio, gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau busnes a allai wrthdaro, neu y gellir amgyffred eu bod yn gwrthdaro, â rolau a chyfrifoldebau aelod o'r Bwrdd Anweithredol i ni. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi

o awdurdod y tu allan i'r rôl yn Estyn. Os cewch eich penodi, bydd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod ymddygiad ar gyfer aelodau bwrdd cyrff cyhoeddus - GOV.UK (www.gov.uk).

# Hyfforddiant a pherfformiad

**Digwyddiadau hyfforddi / gweithgareddau eraill**

Wedi i chi gael eich penodi, byddwch yn cael cyfnod ymsefydlu ar gyfer y rôl.

Pan fydd yn ofynnol i chi fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'ch rôl, byddwn ni'n talu'r costau. Ni fyddwn yn ariannu hyfforddiant ar gyfer aelodau allanol wedi'i anelu at ddatblygu medrau.

Efallai y byddwch yn cymryd rhan mewn gweithgareddau eraill o bryd i'w gilydd, e.e. datrys anghydfod, achosion disgyblu a gweithgareddau recriwtio.

**Ymddygiad a pherfformiad**

Caiff effeithiolrwydd Aelodau'r Bwrdd ei adolygu'n rheolaidd gan PAEM.

Bydd adolygiad blynyddol o berfformiad ac effeithiolrwydd, sy'n cynnwys nodi anghenion dysgu, yn cael ei gynnal gan PAEM.

# Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiant – cynnwys pawb, gwerthfawrogi, parchu a chroesawu heriau syniadau, barn a phrofiadau bywyd amrywiol yn gadarnhaol. Rydym eisiau adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a gwella'r drefn o ran gwneud penderfyniadau.

Rydym yn cydnabod bod pawb yn cynnig gwahanol fedrau a phrofiad i'n sefydliad, ac mai'r amrywiaeth hon sy'n creu sefydliad cryf. Rydym yn annog ceisiadau o'r amrywiaeth ehangaf posibl o gefndiroedd, diwylliannau a phrofiadau. Rydym yn arbennig yn croesawu ceisiadau gan fenywod, pobl â chefndir ethnig lleiafrifol, yn ogystal â phobl sy'n byw ag anabledd.

# Ymgeisio am y rôl

Mae ein Prif Arolygydd, Owen Evans, yn hapus i gyfarfod ag unrhyw un sydd â diddordeb yn y rôl. Cysylltwch â Michaela Benjamin ar 02920 446523 i drefnu amser cyfleus.

**I ymgeisio, llenwch y ffurflen gais, a'i dychwelyd.** Gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais yma: www.estyn.llyw.cymru/gweithio-ni/gweithio-i-ni

Mae'r dogfennau hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

I gwblhau'r cais, gofynnir i chi ddarparu:

1. Eich **manylion personol** – rydym yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu yma i brosesu'ch cais a chyfathrebu â chi.

2. **Datganiad ategol (uchafswm 750 gair)** – hwn yw eich cyfle i ddangos sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf a amlinellir ym manyleb yr unigolyn. Eich lle chi yw penderfynu sut rydych yn dewis cyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech chi anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyd-fynd â phob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dewis os gallwch chi fod yn glir pa dystiolaeth benodol rydych chi'n ei darparu sy'n ymwneud â pha feini prawf. Mae darparu paragraffau ar wahân yn gysylltiedig â phob maen prawf yn arfer gyffredin. Cyfyngwch eich datganiad ategol i 750 gair. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r terfyn hwn.

3. **Bywgraffiad proffesiynol byr** yn dangos eich cefndir a'r amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr rydych chi'n meddu arnynt

4. **Manylion am unrhyw fuddiannau personol neu fusnes** a swyddi o awdurdod ar y ffurflen Cofrestr Buddiannau – dylech ddatgan unrhyw fuddiannau a allai ddylanwadu, neu y gellir amgyffred eu bod yn dylanwadu, ar eich barnau wrth gyflawni'ch dyletswyddau os cewch eich penodi. Bydd unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau yn cael eu harchwilio mewn cyfweliad.

**Ni fydd adrannau canlynol y ffurflen yn cael eu trin fel rhan o'ch cais ac ni fyddant yn cael eu gweld gan unrhyw un sy'n ymwneud â'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch dewis. Rydym yn dewis yr holl ymgeiswyr i'w cyfweld ar sail eu gwybodaeth, medrau a phrofiad.**

5. **Geirdaon** – rhowch fanylion cyswllt dau ganolwr y byddwn yn cysylltu â nhw ar ôl gwneud cynnig dros dro yn unig. Bydd o leiaf un o'r canolwyr yn gysylltiedig â chyflogaeth, e.e. eich cyflogwr presennol neu'ch cyflogwr diweddaraf neu Fwrdd / Pwyllgor yr ydych yn aelod ohono. Bydd unrhyw ganolwr personol yn eich adnabod yn bersonol ac yn gallu darparu geirda cymeriad ar eich cyfer chi. Rhaid i chi beidio â rhoi enw eich partner neu aelod o'ch teulu ar gyfer geirda personol.

6 **Gofynion arbennig** – rhowch wybod i ni am unrhyw ofynion arbennig nad ydym ni efallai wedi eu rhagweld i'ch galluogi i wneud cais a chymryd rhan yn y broses ddewis.

7 **Data monitro amrywiaeth** – Bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio at ddibenion ystadegol yn unig.

8 **Datganiad** – gofynnir i chi lofnodi a dyddio'r ffurflen i gadarnhau bod y wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn wir a chyflawn. Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr adran hon cyn llofnodi. Fel arfer, bydd darparu gwybodaeth gamarweiniol neu ffug, neu hepgoriad sylweddol, yn arwain at dynnu'n ôl unrhyw gynnig penodiad, neu gyfranogiad yn y broses recriwtio, neu ddiswyddo (os cewch eich penodi). Ni allwn ystyried ffurflenni cais ble mae'r adran hon yn anghyflawn.

**Gwybodaeth ychwanegol ar gyfer pobl anabl**

Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Byddwn:

- yn sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol a hygyrch
- yn rhagweld ac yn darparu addasiadau rhesymol yn ôl yr angen
- yn rhoi cyfle i unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y rôl ddangos ei alluoedd mewn cyfweliad

I fodloni'r 'meini prawf gofynnol', rhaid i'ch ffurflen gais ddangos tystiolaeth eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ym manyleb yr unigolyn. Os hoffech i ni ystyried eich cais o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, rhowch wybod i ni trwy dicio'r blwch yn yr adran monitro Amrywiaeth.

Byddwn yn darparu mynediad, offer, addasiadau neu gymorth ymarferol arall, ble mae'n rhesymol gwneud hynny, i sicrhau bod pobl anabl yn cystadlu ar yr un telerau. Mae enghreifftiau'n cynnwys darparu dehonglwr iaith arwyddion, amser ychwanegol ar gyfer asesiadau ysgrifenedig, cymorth i mewn ac allan o'ch cerbyd, ac ati.

Rhowch wybod i ni os oes gennych chi unrhyw ofynion er mwyn i ni allu sicrhau bod ein proses ddewis yn hygyrch, trwy gysylltu â Debbie Levy ar 02920 446422.

# Cyflwyno'ch cais

Anfonwch eich ffurflen gais gyflawn i: **recriwitio@estyn.llyw.cymru** erbyn y dyddiad a'r amser cau.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **10am, dydd Llun, 23 Mai 2022.** Ni allwn ystyried ceisiadau hwyr neu anghyflawn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich cais yn bodloni'r gofynion y rhoddir manylion amdanynt uchod, a'i fod yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg. Gellir cyfieithu'ch cais i'r Gymraeg neu'r Saesneg os oes angen (yn dibynnu ar iaith mwyafrif y panel).

Rydym yn argymell y dylech chi anfon eich cais trwy'r e-bost. Ar hyn o bryd, rydym yn profi oedi o ran derbyn post a allai olygu bod eich cais yn hwyr.

**Trefniadau amgen neu ddogfennau hygyrch**: Os hoffech wneud cais neu gael at y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â Debbie Levy i drafod eich gofynion.

# Proses ddewis

**Llunio rhestr fer**

Bydd y panel dewis yn ystyried pob cais cyflawn. Bydd y panel yn ystyried y wybodaeth, y medrau a'r profiad perthnasol a ddangosir yn eich cais. Felly, mae'r wybodaeth a rowch i ni yn hanfodol wrth benderfynu p'un a fyddwch yn cyrraedd y rhestr fer i'ch ystyried ymhellach.

Os byddwn yn derbyn nifer fawr o geisiadau, gallai eich cais gael ei roi ar y "rhestr hir" cyn ei basio at y panel sy'n llunio'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol yn y sefyllfa hon na fydd eich cais efallai'n cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Bydd y panel yn llunio rhestr fer o'r ymgeiswyr cryfaf sydd wedi dangos mai nhw sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol a amlinellir ym manyleb yr unigolyn yn y ffordd orau. Wrth ystyried ceisiadau, bydd y panel yn ystyried yr angen i gael medrau a phrofiadau ategol ar draws y tair rôl Cyfarwyddwr Anweithredol. Bydd ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad panel. Fodd bynnag, os ydych chi wedi ymgeisio o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd, yna byddwch yn cael eich gwahodd am gyfweliad hefyd.

Byddwch yn cael neges e-bost i roi gwybod i chi p'un a ydych chi wedi cael eich gwahodd am gyfweliad ai peidio.

**Cyfweliad**

Bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn ein swyddfa yng Nghaerdydd: Cwrt Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW. Bydd cyfweliadau'n para tua 45 munud, a bydd yn ofynnol i chi roi cyflwyniad byr. Bydd y panel yn eich holi am eich medrau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu p'un a ydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellir ar gyfer y swydd.

Bydd y cyfweliad yn cael ei gadeirio gan Owen Evans, PAEM, Estyn a bydd hefyd yn cynnwys aelodau o'r panel annibynnol.

Chi fydd yn talu holl gostau mynychu'r cyfweliad. Ni fyddwn yn talu unrhyw gostau cludiant, llety na chynhaliaeth yn gysylltiedig â'r recriwtio.

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn credu bod 'modd eu penodi', yn cael cynnig y rôl.

Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr yn cynnig y rôl i chi fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer Estyn, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir y penodiad yn unol â nhw. Os byddwch yn aflwyddiannus yn y cyfweliad, byddwch yn cael gwybod trwy neges e-bost.

Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Bydd y neges e-bost am y canlyniad yn rhoi'r manylion ynghylch i bwy y gallech chi ofyn am adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os byddwch yn dymuno.

# Amserlen ddangosol

Mae'r amserlen rydym yn gweithio yn unol â hi wedi'i chrynhoi isod. Os byddwch yn llwyddiannus yng ngham llunio'r rhestr fer, bydd disgwyl i chi drefnu eich bod ar gael ar ddyddiadau'r cyfweliad. Efallai na fydd ymgeiswyr nad ydynt ar gael i fynychu ar gyfer cyfweliad ar y dyddiadau a gynigir yn cael eu hystyried ar gyfer y rolau hyn.

Os bydd angen i ni newid y dyddiadau hyn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd ag y gallwn i chi am ddyddiadau'r cyfweliad. Os nad yw'r dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfweliad yn gyfleus i chi, byddwn yn ceisio'i aildrefnu ond efallai na fydd yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodol neu argaeledd y panel dewis.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau** | Dydd Llun 23 Mai, 10am |
| **Llunio'r rhestr fer** | 26 Mai 2022 |
| **Cyfweliadau (yn cynnwys cyflwyniad)** | 8 a 9 Mehefin 2022 |
| **Dechrau'r penodiadau** | Medi 2022 |

# Ymholiadau Pellach

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymarfer recriwtio hwn nad ydym wedi'u hateb yn y pecyn hwn, cysylltwch â Debbie Levy ar 029 2044 6422, neu drwy anfon neges e-bost: recriwtio@estyn.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg; byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd oedi yn ein hymateb.

**Cwynion**

Mae ein prosesau recriwtio wedi eu seilio ar egwyddor dewis ar gyfer penodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Rydym yn dilyn Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Gallwch ddarganfod mwy am yr Egwyddorion yn https://civilservicecommission.independent.gov.uk/

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi trin eich cais o dan yr Egwyddorion a'ch bod eisiau gwneud cwyn, cysylltwch yn y lle cyntaf â:

Helen Lovitt, Pennaeth Cangen: Pobl Helen.Lovitt@estyn.llyw.cymru

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb a gewch chi gennym ni, efallai y gallwch ofyn i Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil ystyried eich cwyn ymhellach. Gellir cysylltu â nhw yn:

info@csc.gov.uk

Civil Service Commission, Room G8, 1 Horse Guards Road, London SW1A 2HQ
Ffôn: 020 7271 0831